

DOLEN Y TAB – 28

30–31 Hydref 2020

OEDFA 1 TACHWEDD

Oedfa yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys. Myfyrdod gan Edwyn Evans a chân arbennig gan Sian Elin.

OEDFAON RHITHIOL GWEDDILL TACHWEDD

8 Sul Heddwch gyda Helen Prosser. (Manylion pellach i ddilyn.)

15 Oedfa i'r Teulu gyda Heulyn, Catrin a rhai o'r Twmiaid.

22 Emlyn Davies.

29 Y Parchg. Gethin Rhys.

Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb

Yng ngofal y Parchg. Geoffrey Eynon, Cas-blaidd, Sir Benfro ar y thema 'Pontydd'.
(Ar gael ar wefan yr Undeb annibynwyr.org a YouTube).

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Kevin Adams, Boston.

12.30 Radio Cymru *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.

7.30yh S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Hanes y diwylliant crefyddol yng nghymoedd glofaol y de-ddwyrain fydd thema'r rhaglen.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru.

CAPEL Y TABERNAACL CYF.

ENWEBU CYFARWYDDWYR NEWYDD

Mae angen o leiaf **PEDWAR CYFARWYDDWR NEWYDD** i'r Bwrdd gan fod tymor 4 o'r aelodau yn dod i ben yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fore Sul 29 Tachwedd.

Dyddiad Cau:

Dydd Llun 16 Tachwedd 2020

HELPU POBL DDIGARTREF

Ar ôl trafod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, mae John wedi cael ar ddeall bod cyllid ganddyn nhw i sicrhau cartref, dillad a nwyddau i'r bobl ifanc fydd yn derbyn ein talebau, ond maen nhw'n bryderus iawn am sefyllfa llawer o'r bobl ddigartref yn yr ardal a byddent yn falch o gael ein help. Bydd John yn cydlynu apêl am ddillad, dillad gwely a nwyddau hylendid ar eu cyfer, ac yn eu casglu yn y capel.

Bydd modd i chi ddod â'ch cyfraniadau i'r capel ar fore lau rhwng 10 a 12 o'r gloch, gan ddechrau ar 12 Tachwedd.

Diolch ymlaen llaw i chi am eich cydweithrediad.

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

11 o'r gloch fore Sul 29 Tachwedd
Cynhelir y cyfarfod dros Zoom

Cyhoeddir rhagor o fanylion ynghylch sut i ymuno â'r cyfarfod yn agosach at y dyddiad.

TALEBAU NADOLIG

Unwaith eto, mae'n amser dechrau meddwl am helpu pobol ifanc sy'n gadael gofal, er mwyn dod ag ychydig o ysbryd y Nadolig i'w bywydau. Mae'r pandemig yn gwneud eu hamgylchiadau'n anoddach nag erioed, a byddwn yn aros am arweiniad gan eu gweithwyr cymdeithasol gyda golwg ar gasglu dillad a nwyddau addas yn ogystal.

Yn y cyfamser, bydd casgliad ariannol yn weithredol tan ddiwedd Tachwedd, gyda golwg ar gyflwyno'r talebau Nadolig i gynifer ohonynt ag y medrwn ni.

Dyma'r manylion ar gyfer cyfrannu:

Anfon siec yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU gyda nodyn yn cynnwys eich enw a 'Talebau Nadolig'.

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72

Rhif cyfrif 03607499

gan gynnwys eich enw a nodi 'Talebau Nadolig'

**DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM EICH
HAELIONI DROS Y MISOEDD DIWETHAF**

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

BEIBL 1620



Am dros 350 o flynyddoedd, argraffiad diwygiedig o Feibl William Morgan, sef Beibl 1620, oedd y fersiwn awdurdodedig Cymraeg o'r ysgrythurau a ddefnyddid yn gyffredinol mewn capeli ac eglwysi ac mewn aelwydydd Cymraeg eu hiaith. Yn wreiddiol, cafodd y gyfrol ei llysenwi'n 'Beibl Parry', gan mai Richard Parry, Esgob Llanelwly ar y pryd, a fynodd y clod i gyd iddo'i hun am ddiwygio'r Beibl Cymraeg gwreiddiol. Ond erbyn hyn mae'r ysgolheigion yn gytûn mai John Davies, Rheithor Mallwyd (ond brodor o Lanferres, cwta bedair milltir o'r Wyddgrug), oedd hefyd yn frawd-yng-nghyfraith i Richard Parry, oedd yn bennaf cyfrifol am gywiro'r gwallau argraffu niferus a rhoi mwy o urddas ar y mynegiant. Yn ddiweddar, fe achubwyd cam John Davies mewn ffordd gofiadwy iawn yn nofel orchestol Gwynn ap Gwilym, *Sgythia*.

Yn wahanol i'r beiblau teuluol arferol a argraffwyd wrth y degau o filoedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae copïau o argraffiad cyntaf Beibl 1620 yn sobr o brin. Ond mae gan D. Gareth Edwards, Pontcanna – un o gyn-aelodau'r Tabernacl – gopi yn ei feddiant. Gan fod eleni'n nodi pedwar canmlwyddiant cyhoeddi'r Beibl, roedd Gareth wedi cynnig dod â'r gyfrol draw i'r Tabernacl ar fore Sul i'w dangos i ni. Ond yn sgil y pandemig bu'n rhaid rhoi'r syniad hwnnw o'r neilltu ac yn lle hynny gwahoddwyd Gareth i adrodd yr hyn a wyddai am y copi. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am rannu'r stori'r gyfrol hon gyda ni.

Daeth y Beibl i'm gofal trwy fy niweddar briod, Eiddwen, a chyn hynny trwy law sawl cenhedlaeth o deulu fferm Bryn Celynnog, Cwm Prysor, Trawsfynydd. Saif y cartref ym mhen uchaf y cwm, lle bu'r teulu'n byw am dros 300 mlynedd.


Does dim gwybodaeth pryd nac o ble y daeth y Beibl anferth a thrwm – gyda'i 1,172 o dudalennau maint 'ffolio' mawr, ei glawr lledr a'i fotymau pres – yn eiddo i'r teulu. Er bod ychydig o draul ar yr wyneb ddaalen, a rhai o'r tudalennau cyfarch rhagarweiniol, mae e mewn cyflwr ardderchog ac yn hynod urddasol.

Mae'n bur debyg fod y Beibl hwn ar un adeg wedi'i osod ar ddarllenfa mewn eglwys, ac yn fwy na thebyg wedi'i glymu i'r ddarllenfa gyda chadwyn i sicrhau na allai neb ei ddwyn.



Addysgwyd Morris Jones, un o feibion Bryn Celynnog, yng Nghroesoswallt yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chasglodd lyfrgell helaeth o gylchgronau am bynciau'r dydd a gofal fferm. Pan sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn nechrau'r ugeinfed ganrif, trosglwyddodd y teulu lawer o'i gasgliad i Aberystwyth, ond nid felly Beibl 1620; gofalodd y teulu hefyd gadw un o glasuron cynnar ein llenyddiaeth, sef Gorchestion Beirdd Cymru (1573) gan Rhys Jones, Llanfachreth.

Symudodd y teulu o Fryn Celynnog yn y 1920au pan brynwyd ffermdy Tyddyn Llwyn, Morfa Bychan, Porthmadog. Ar ôl eu dyddiau hwy, bu'r Beibl yng ngofal eu merch, Grace Ellen Williams, ac yna ei merch hithau, Eiddwen Edwards.



Braint Gareth yn ei dro fydd trosglwyddo'r Beibl i'r genhedlaeth nesaf o ddisgynyddion Bryn Celynnog a fydd yn siŵr o'i drysori mor ofalgar a'u hynafiaid.

Symposiwm Dathlu Beibl 1620

Fel yn achos dathliadau 150 Capel y Tabernacl, bu'n rhaid gohirio neu ganslo nifer fawr o'r digwyddiadau oedd wedi eu trefnu i dathlu 400 mlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620. Fodd bynnag, yn ystod mis Tachwedd bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnal symposiwm rhithiol i dathlu'r achlysur. Mae'r rhaglen yn cynnwys sgysiau gan bedwar o ysgolheigion blaenllaw, sef E. Gwynn Matthews, Dr Dylan Foster Evans, Dr Eryn White a'r Athro E. Wyn James. Rhyngddynt, byddant yn olrhain hanes cyfieithu a chyhoeddi argraffiadau amrywiol o'r Beibl rhwng ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Am 6 o'r gloch ar nosweithiau Mercher y cynhelir y sgysiau hyn, a gellir archebu tocyn i'w 'mynychu' yn rhad ac ddim. Gallwch dderbyn rhagor o wybodaeth am y symposiwm, a'r manylion ynghylch sut i archebu tocyn, ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru: <https://www.llyfrgell.cymru>

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel, www.tabernacl.org.

Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol at: gehpenwgern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.